Darparu triniaethau therapi cerrig

## Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgiliau sy'n gysylltiedig â darparu triniaethau therapi cerrig poeth ac oer. Mae'n cynnwys tylino a gosod cerrig ar y pen, yr wyneb a'r corff. Mae'r gallu i addasu triniaethau therapi cerrig i gyd-fynd ag anghenion cleientiaid unigol yn ofyniad hanfodol.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau therapi cerrig

2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau therapi cerrig

3. cynnal triniaethau therapi cerrig

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau therapi cerrig****

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y driniaeth
2. paratoi'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol
3. cynnal urddas a phreifatrwydd eich cleient bob amser
4. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y driniaeth
5. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn isafu ar flinder a risg o anaf i'ch hun ac eraill
6. darparu cefnogaeth â chlustog i rannau gofynnol y corff yn ystod y driniaeth
7. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r driniaeth
8. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio
9. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân
10. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
11. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel o gyfarpar, deunydd a chynnyrch
12. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol
13. cwblhau'r driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau therapi cerrig****

14. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun gwasanaeth y cleient
15. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw driniaeth

16. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y driniaeth ar gyfer plant sy'n iau na 16

17. adnabod unrhyw wrtharwyddion  a chymryd y **camau angenrheidiol**

18. cynnal prawf sensitifrwydd croen a chlwt prawf thermol ar ardaloedd croen perthnasol

19. cytuno ar yr **amcanion triniaeth** a'r canlyniadau gyda'r cleient sy'n bodloni eu hanghenion

20. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y driniaeth

21. asesu **nodweddion corfforol** y cleient a dewis **cerrig triniaeth** i fodloni **anghenion y driniaeth**

22. gwirio bod y dŵr ar y tymheredd gofynnol cyn gosod y cerrig

**Cynnal triniaethau therapi cerrig****

23. rhoi gwybodaeth i'r cleient am y teimlad sy'n cael ei greu gan y cerrig triniaeth, yn ystod pob cam o'r broses

24. amddiffyn croen y cleient yn erbyn eithafion tymheredd yn ystod gosod cerrig ar y blaen a'r cefn

25. gosod **cerrig triniaeth** ar y pwyntiau chakra, i fodloni'r **amcanion triniaeth** y cytunwyd arnynt

26. gosod **cerrig triniaeth** o dan y corff, gan sicrhau cysur y cleient

27. dewis a thaenu olew triniaeth i fodloni'r **amcanion triniaeth**

28. rheoli technegau triniaeth i atal y croen rhag cael gormod o gysylltiad â gwres

29. addasu'ch **technegau therapi cerrig** a dilyniant i fodloni **nodweddion corfforol**, **ardal(-oedd) triniaeth** ac **amcanion triniaeth** y cleient

30. amrywio dyfnder, rhythm, a phwysau'r **technegau triniaeth** i fodloni **amcanion triniaeth** a **nodweddion corfforol** a hoffterau'r cleient

31. cymryd camau adferol os bydd adweithiau neu anghysur yn digwydd yn ystod hynt y driniaeth

32. gwirio lles y cleient trwy gydol y triniaethau a rhoi digon o amser i'r cleient adfer ar ôl y driniaeth

33. sicrhau bod y cleient yn fodlon â'r canlyniad gorffenedig ac yn bodloni **amcanion triniaeth** y cytunwyd arnynt

34. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y driniaeth a ddarparwyd

35. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau therapi cerrig****

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer amddiffyn a pharatoi cleient

3. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol eich hun

4. eich cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu awdurdod lleol drosoch eich hun a'ch lleoliad

5. y rhesymau dros gynnal urddas a phreifatrwydd y cleient yn ystod y driniaeth

6. technegau gosod eich hun a'ch cleient mewn safle diogel a pham mae defnyddio'r rhain yn bwysig

7. rhannau'r corff sy'n gofyn am gefnogaeth â chlustog yn ystod y driniaeth a sut i'w darparu

8. amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau megis, gwresogi ac awyru, a pham mae'r rhain yn bwysig

9. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

10. dulliau a ddefnyddir i ddiheintio cerrig triniaeth ar ôl pob triniaeth

11. dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lân er mwyn osgoi'r risg o groes-heintio

12. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

13. y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

14. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a

chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn

15. gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff

16. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau therapi cerrig****

17. pam mae'n bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol

18. sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient

19. y gofynion cyfreithiol dros ddarparu gwasanaethau i blant sy'n iau na 16 oed

20. yr oed pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol

21. pwysigrwydd cytuno â'r cleient ar driniaeth sy'n bodloni eu hanghenion

22. arwyddocâd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient i gynnal y driniaeth

23. gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient

24. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y driniaeth

25. y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham

26. y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

27. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

28. sut i asesu'n weledol nodweddion corfforol gwahanol gleientiaid

29. gweithdrefnau cynnal prawf sensitifrwydd croen cyn defnyddio olewau aromatherapi wedi'u cymysgu'n barod a chlwt prawf thermol

30. rhesymau dros gynnal profion cyn triniaethau therapi cerrig a chofnodi'r canlyniadau

31. sut i baratoi'r ardal driniaeth a'r cleient ar gyfer triniaethau therapi cerrig

32. pwysigrwydd gwirio tymheredd dŵr cyn y driniaeth

**Cynnal triniaethau therapi cerrig****

33. mathau o ddefnyddiau a ddefnyddir i amddiffyn croen y cleient yn erbyn eithafion tymheredd

34. technegau dewis cerrig, gan gynnwys maint cywir, math, siâp ac ansawdd

35. sut i ddewis y cyfrwng tylino cywir i gyd-fynd ag anghenion y cleient

36. sut i gyflwyno a gosod y cerrig triniaeth i uchafu ar eu buddion a sicrhau cysur y cleient

37. pwysigrwydd rheoli tymheredd y cerrig yn ystod y driniaeth a sut i gynnal hyn

38. technegau trin diogel i osgoi sŵn ac aflonyddu gormodol

39. buddion dewis a gosod cerrig penodol ar y saith prif chakra

40. sut i addasu ac amrywio'ch technegau triniaeth a dilyniant i fodloni nodweddion corfforol ac ardal(oedd) i'w trin y cleient

41. buddion ac effeithiau defnyddio cerrig poeth ac oer, naill ar eu pennau eu hunain neu gyflwyno dau dymheredd yn ystod triniaeth

42. pum elfen therapi cerrig

43. egwyddorion a nodweddion sylfaenol y saith prif chakra a'u harwyddocâd i arfer triniaeth therapi cerrig

44. dulliau oeri cerrig

45. gofynion storio gwahanol fathau o gerrig

46. y camau adferol i'w cymryd os bydd **adweithiau** neu anghysur yn digwydd yn ystod hynt y driniaeth

47. sut i addasu technegau therapi cerrig i atal **anafiadau cysylltiedig â gwaith**

48. **anatomi a ffisioleg** y corff

49. effeithiau **corfforol a seicolegol** triniaethau therapi cerrig poeth ac oer

50. pam mae'n bwysig gwirio lles y cleient trwy gydol y driniaeth a chaniatáu amser adfer digonol ar ôl y driniaeth

51. y dulliau a ddefnyddir i werthuso effeithiolrwydd y triniaethau therapi cerrig

52. y **cyngor ac argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau i'r cleient

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Technegau ymgynghori****

1. holi
2. gwrando
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

**Camau angenrheidiol****

1. annog y cleient i geisio cyngor meddygol
2. esbonio pam nad oedd modd cynnal y driniaeth
3. addasu'r driniaeth

**Amcanion y driniaeth****

1. ymlacio
2. dyrchafol
3. synnwyr lles
4. rhyddhau tensiwn cyhyrol

**Nodweddion corfforol****

1. math o gorff
2. ystum
3. tyndra'r cyhyrau

4. oed

5. iechyd

6. cyflyrau croen

**Cerrig triniaeth****

1. basalt

2. marmor

3. cerrig rhannol werthfawr

**Technegau triniaeth****

1. effleurage

2. petrissage

3. ffrithiant

4. tapio

5. twcio

6. lleoli

7. pwynt sbardun

**Technegau therapi cerrig****

1. troi cerrig

2. cerrig poeth ac oer am yn ail

3. defnyddio cerrig poeth yn unig

4. defnyddio cerrig oer yn unig

5. cyfuno mathau a meintiau cerrig

**Ardaloedd i'w trin****

1. wyneb
2. pen
3. gwddf, brest ac ysgwyddau
4. breichiau a dwylo
5. abdomen
6. cefn
7. coesau a thraed

**Cyngor ac argymhellion****

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd
2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau
3. cynnyrch a gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol
4. cyngor ar ôl y driniaeth

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Iechyd a diogelwch****

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

**Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy****

1. lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2. lleihau'r defnydd  ynni (offer ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro
6. defnyddio dodrefn ecogyfeillgar, wedi'u hailgylchu
7. defnyddio paent â lefelau isel o gemegau

8. defnyddio cynnyrch organig gwrth-alergedd
9. defnyddio deunydd pecynnu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd
10. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
11. annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

**Anghenion amrywiol****

1. diwylliannol
2. crefyddol
3. oedran
4. anabledd
5. rhyw

**Gwrtharwyddion** sy'n atal

1. clefydau croen heintus
2. camweithrediad y system nerfol
3. meinwe craith ddiweddar
4. lympiau a chwyddiadau heb ddiagnosis

**Gwrtharwyddion** sy'n cyfyngu

1. mynd trwy driniaeth feddygol
2. clefyd siwgr nad yw dan reolaeth
3. epilepsi
4. pwysedd gwaed uchel/isel
5. hanes o thrombosis neu emboledd

6. gwythiennau chwyddedig

7. pinnau neu blatiau metel

8. meddyginiaeth

9. beichiogrwydd

10. tyllu rhannau o'r corff

11. toriadau a chrafiadau

12. yn ystod triniaeth ganser

**Adweithiau****

1. cochni

2. hyperemia

3. adwaith alergaidd i gynnyrch

**Anafiadau cysylltiedig â gwaith****

1. anaf i'r cefn

2. syndrom twnnel arddyrnol

3. straen i'r gwddf

4. anaf straen ailadroddus (RSI)

**Anatomi a ffisioleg****

1. strwythur a swyddogaeth celloedd a meinweoedd

2. strwythur, swyddogaeth a gwahanol fathau o gyhyrau

3. safleoedd a gweithredoedd prif grwpiau cyhyrau a adnabuwyd o fewn ardaloedd i'w trin yn y corff

5. safle a swyddogaeth prif esgyrn a chymalau'r sgerbwd

6. sut i adnabod diffygion a chyflyrau'r ystum

7. strwythur a swyddogaeth y system cylchrediad y gwaed

8. strwythur a swyddogaeth y system lymffatig

9. egwyddorion sylfaenol y system nerfol ganolog a'r system awtonomig

10. egwyddorion sylfaenol y systemau endocrinaidd, anadlol, treulio ac ysgarthol

11. strwythur a swyddogaeth y croen

12. strwythur a lleoliad y meinwe bloneg

**Corfforol a seicolegol****

Effeithiau corfforol

1. ymlacio cyhyrau

2. sbarduno systemau cylchrediad y gwaed/lymffatig

3. tawelu neu'n sbarduno ffibrau nerfol

Effeithiau seicolegol

1. rhyddhau straen a thensiwn

2. gwell lles cyffredinol

3. tawelu ac ymlacio

**Cyngor ac argymhellion****

1. triniaethau ychwanegol

2. cynnyrch ychwanegol

3. ffactorau a newidiadau ffordd o fyw a allai fod yn ofynnol i wella effeithiolrwydd y driniaeth megis diet, ymarfer, straen a chwsg

4. cyfyngiadau ar ôl y driniaeth ac anghenion triniaeth yn y dyfodol

5. cyngor ar ôl y driniaeth i gynnwys yfed digon o ddŵr ac ymlacio

6. cyfnodau o amser rhwng triniaethau

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

**Math o gorff****

Mae ectomorff yn aml islaw'r pwysau cyfartalog am eu taldra a bydd ganddynt ymddangosiad tenau. Mae ectomorffau yn dueddol o fod â metabolaeth uchel iawn ac yn aml yn cwyno o fwyta di-baid heb fagu unrhyw bwysau neu ychydig iawn o bwysau.

Mae'r math o gorff endomorffig i'r gwrthwyneb yn llwyr i'r ectomorff.

Bydd yr unigolyn fel arfer yn fwy ei ymddangosiad gyda chroniad braster trymach ac ychydig iawn o ddiffiniad i'r cyhyrau. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd colli pwysau, hyd yn oed pan fyddant ar ddiet ac yn ymarfer.

Mae gan mesomorff gorff mwy cyhyrol a thenau ac mae rhywle rhwng ectomorff ac endomorff ac felly'n arddangos rhinweddau'r ddau. Hwyrach fod ganddynt ffrâm fwy na'r endormoff ond canran braster y corff is na'r ectomorff. Yn aml dyma'r math o gorff y mae pawb ei eisiau.

**Pum elfen therapi cerrig****

Yn gyffredinol credir mai daear, tân, coed, metel a dŵr. Credir bod therapi cerrig yn darparu cydbwysedd yn y corff trwy gwmpasu pob un o'r pum elfen o fewn y gwasanaeth.

**Cerrig rhannol werthfawr****

Gellir cynnwys y rhain o fewn y lleoliad therapi cerrig i gyfoethogi buddion y driniaeth, megis ar gyfer clirio a chydbwyso chakras.

**Profion sensitifrwydd croen****

Mae'r prawf hwn yn pennu a oes gan y cleient alergedd i'r cynnyrch sy'n cael ei daenu.

**Tapio****

Mae'r dechneg hon yn gofyn i'r therapydd ddal carreg yn erbyn y corff wrth dapio'r llall yn rhythmig gydag un arall i greu effaith ddirgrynu.

**Twcio****

Gosod carreg gynnes mewn safle o dan ardal y corff ar ôl iddi gael ei defnyddio ar gyfer triniaeth megis pengliniau, coesau ac ysgwyddau.

**Lleoli****

Lleoli carreg mewn safle penodol ar y corff neu oddi tan y corff.

**Pwynt Sbarduno****

Pwysau parhaus dwfn gyda charreg ar un ardal i gyflawni rhyddhad o densiwn cyhyrol.

**Clwt prawf thermol****

Mae hyn er mwyn gwirio bod tymheredd y cerrig poeth yn gyfforddus i'r cleient cyn parhau â'r driniaeth.

Darparu triniaethau therapi cerrig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAB28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Therapydd Harddwch, Therapydd Sba, Therapydd Tylino |
| **Cyfres/Set** | Therapi Harddwch, Therapi Sba |
| **Geiriau Allweddol** | therapi cerrig; tylino cerrig |